OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

Darpariaethau trosiannol

**Personau sydd i gael eu trin fel rhai sydd wedi eu cydnabod o dan adran 8**

**4.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, yn union cyn 21 Medi 2015, wedi ei gydnabod o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997(**1**) mewn cysylltiad â dyfarnu neu ddilysu cymhwyster perthnasol penodedig neu ddisgrifiad o gymhwyster perthnasol.

(2) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r person i gael ei drin fel un sydd wedi ei gydnabod o dan adran 8 (cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol) o'r Ddeddf.

(3) Ond os yw'r person wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig cyn y dyddiad hwnnw nad yw'r person yn dymuno cael ei gydnabod o dan adran 8 mewn cysylltiad â chymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster nad yw'r corff wedi ei gydnabod mewn cysylltiad ag ef o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997, mae'r person i gael ei drin fel pe bai wedi pennu'r cymhwyster hwnnw neu'r disgrifiad hwnnw o gymhwyster o dan adran 8(2) o'r Ddeddf.

(**1**) Amnewidwyd adran 30(1) gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), Atodlen 12, paragraffau 12 a 15(1) a (2).